Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1119 (Cy. 186)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 122 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer penderfynu'r tâl ar gyfer athrawon ysgol yng Nghymru ac amodau eraill eu cyflogaeth sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol neu eu hamser gweithio.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud y ddarpariaeth hon drwy gyfeirio at adran 2 o ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ("y Ddogfen"). Gellir canfod y Ddogfen ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol, o dan adran 123(3) o Ddeddf Addysg 2002, er mwyn darparu bod y darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2024 er bod y Gorchymyn yn dod i rym ar ôl y dyddiad hwnnw (erthygl 2).

Mae'r Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023 (O.S. 2023/1067 (Cy. 181)) (erthygl 3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Cangen Gweithlu ac Ymgysylltu, Adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 1119 (Cy. 186)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024

*Gwnaed* *6 Tachwedd 2024*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *8 Tachwedd 2024*

*Yn dod i rym* *29 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 122(1), 123 a 124 o Ddeddf Addysg 2002(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 126(**3**) o'r Ddeddf honno wedi ymgynghori â'r personau hynny a'r cyrff hynny y cyfeirir atynt yn yr adran honno yr oedd yn ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn briodol.

### Enwi, dod i rym a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Tachwedd 2024.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i athrawon ysgol yng Nghymru.

(**1**) 2002 p. 32; diwygiwyd adrannau 122 a 123 gan O.S. 2010/1158. Gweler adran 122(8) o Ddeddf Addysg 2002 am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39(3) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644).

(**3**) Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon o'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru gan erthygl 39(3) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Y Ddogfen**

**2.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn adran 2 o'r Ddogfen yn cael effaith ar ac ar ôl 1 Medi 2024 at ddibenion penderfynu—

(a) y tâl ar gyfer athrawon ysgol, a

(b) amodau cyflogaeth eraill ar gyfer athrawon ysgol sy'n ymwneud â'u dyletswyddau proffesiynol a'u hamser gweithio.

(2) Yn yr erthygl hon—

(a) ystyr "y Ddogfen" yw'r ddogfen o'r enw "Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2024 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol" ac a gyhoeddir ar wefan llyw.cymru(**1**);

(b) mae i "athro neu athrawes ysgol" yr ystyr a roddir i "school teacher" gan adran 122(3) i (6) o Ddeddf Addysg 2002.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Rhif 2) (Cymru) 2023(**2**) wedi ei ddirymu.

*Lynne Neagle*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
6 Tachwedd 2024

(**1**) https://llyw.cymru/addysgu-ac-arweinyddiaeth.
(**2**) O.S. 2023/1067 (Cy. 181).